

Cynhadledd Justicia Climatica yn Barcelona 30 Medi 2023

Wedi'i threfnu gan y Ganolfan Astudiaethau Rhyngwladol (CERI) yn Barcelona

Cyflwynais bapur ar lywodraethu amgylcheddol mewn perthynas â'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Esboniais sut roedd y fframwaith rheoleiddio wedi ei wneud yn fater iechyd cyhoeddus sylweddol ac nad oedd ein systemau rheoli dŵr hynafol bellach yn addas i'r diben gyda phatrymau tywydd newidiol yn ein hinsawdd a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ddiogelwch dŵr ledled y byd.

Cymerais ran mewn trafodaeth Banel ar Ddiplomyddiaeth a Llywodraethu Hinsawdd gydag Aelod o'r Senedd o blaid Sinn Féin, Iwerddon ac Aelod o'r Dáil o blaid People Before Profit, Iwerddon.

Roedd y cyfranogwyr eraill yn cynnwys y cyn-weinidog a'r gweinidog presennol dros faterion tramor ar gyfer Catalwnia, ac amrywiaeth o arbenigwyr academaidd a chyfreithiol. O ystyried pwysigrwydd cynyddol cydweithredu byd-eang ar liniaru effaith pobl ar hinsawdd y byd, roedd y profiad o gyfnewid gwybodaeth a phrofiad yn un ysgogol a defnyddiol.

Jenny Rathbone AS

Aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith 2021-24